**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith cenedlaethol drafft ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG**

Yr wyf yn falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith cenedlaethol drafft ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG (GIP).

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), yr wyf yn ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddiaeth neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion);
- Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai) a
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Yr wyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau o ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Yn ystod 2017 a 2018, bu fy swyddogion yn rhan o weithgor a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo yn yr adolygiad o'r Fframwaith Cenedlaethol 2014 ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru. Roedd eu cyfraniadau yn adlewyrchu tystiolaeth o waith achos fy swyddfa. Yn y cyd-destun hwn yr wyf yn ymateb i'r ymgynghoriad cyfredol. Isod, yr wyf yn gosod fy ymatebion i ddau o gwestiynau'r ymgynghoriad, yn ogystal â rhai sylwadau mwy penodol ar gynnwys y Fframwaith arfaethedig a'r Dull Cefnogi Penderfyniadau (DST) hebryngol.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 2**: Credaf y byddai'n ddefnyddiol cynhyrchu a chyhoeddi fframwaith syml sydd wedi'i anelu at ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r ddogfen, fel y'i cynigiwyd, nid yn unig yn dechnegol ond hefyd yn hir iawn. Tra bod hyn yn adlewyrchu cymhlethdod y pwnc, gallai gyflwyno gwahanfur i'r unigolion sy'n ceisio deall eu hawliau. Felly, mae'n amlwg bod gwerth mewn cynhyrchu fersiwn byrrach o'r fframwaith sy'n fwy hwylus i'r defnyddiwr. Er hynny, byddai angen

geirio unrhyw ddogfen o’r fath yn ofalus er mwyn lleihau’r risg o ddehongliadau gwahanol ar draws y ddwy fersiwn.

**Cwestiwn 9**: Yn fy marn i, mae’r broses dau-gam ar gyfer adolygiadau ôl-weithredol a gynigiwyd yn y fframwaith diwygiedig yn briodol ac yn ddigon cynhwysfawr. Mae’r newidiadau arfaethedig i symleiddio’r broses adolygu (e.e. un adolygydd cymheirio; hyblygrwydd yn y sianeli cyfathrebu sydd ar gael i unigolion gymryd rhan mewn cyfarfodydd negodi) yn ymddangos yn rhesymol ac ni fydd, yn fy marn i, yn gwneud y broses yn llai teg yn ymarferol.

**Sylwadau ar gynnwys y Fframwaith diwygiedig a’r DST**

**Negeseuon Allweddol (tudalen 2)**: Credaf y dylid A4 yn yr adran hon ddarllen fel hyn, “Mae'r GIG yn gyfrifol am asesu, ariannu a darparu gwasanaethau _iechyd_ er mwyn diwallu anghenion ei boblogaeth”. Bydd hyn yn helpu i osgoi amwysedd ynghylch unrhyw gyfrifoldebau ehangach y GIG ar gyfer darparu gwasanaethau gofal.

**Paragraffau 4.27 - 4.35 (tudalennau 42 - 43):** Credaf y byddai’r cymalau hyn yn elwa ar fwy o eglurder o ran cysylltiad y claf neu ei gynrychiolydd mewn cyfarfodydd MDT. Mae’r geiriad cyfredol yn ei gwneud hi’n aneglur o ran pryd y gall y claf neu ei gynrychiolydd fod yn bresennol ac ym mha gam y gallant gymryd rhan.

**Paragraffau 5.14 - 5.16 (tudalen 55):** Yr wyf yn croesawu’r cymalau newydd yn yr adran hon sy’n egluro sut y dylid darparu penderfyniadau cymhwysedd i’r claf neu ei gynrychiolydd.

**Paragraffau 6.51 - 6.55 (tudalen 70):** Credaf y byddai’r adran hon yn elwa ar fwy o fanylyn. Yn ogystal, ymddengys bod geiriad y paragraffau 6.52 a 6.53 yn groesddywedol ynghylch a all Taliadau Uniongyrchol barhau unwaith y bydd y claf yn gymwys i GIP. Yr wyf hefyd yn cefnogi’r geiriad a fabwysiadwyd ym mharagraff 6.55 gan nad yw’n rhy gyfarwyddol ac yn caniatáu ystyriaeth hyblyg o achosion ar sail unigol.

**Paragraff 8.10 (tudalen 88)**: Credaf y dylid y frawddeg yn yr adran hon ddarllen fel hyn, “_Dylid datrys_ unrhyw anghydfodau go iawn rhwng ymarferwyr mewn modd proffesiynol.

**Paragraff 8.21 (tudalen 91)**: Credaf y dylid aralleirio’r adran hon i’w darllen fel hyn, “Os caiff y penderfyniad gwreiddiol ei gadarnhau gan y Panel Adolygu Annibynnol a bod yr unigolyn yn _credu bod ystyriaeth y Panel o’r mater yn ddiffygiol, gall yr unigolyn gwyno i’r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru”._ Bydd hyn yn cael gwared ag unrhyw oblygiad dichonadwy y byddai’r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn “ail-glywed” yr achos dros gymhwysedd yn dilyn penderfyniad gan y Panel Adolygu Annibynnol.

**Paragraffau 8.20 - 8.24 (tudalennau 91 - 92)**: Mae’n ymddangos i mi fod geiriad arfaethedig y paragraffau hyn yn groesddywedol. Mae paragraff 8.20 yn awgrymu y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y Panel Adolygu Annibynnol (PAA) unwaith y bydd y gweithdrefnau lleol wedi’i dihysbyddu. Fodd bynnag, mae paragraff 8.24 yn awgrymu y byddai’r atgyfeiriad hwn yn cael ei wneud yn ôl

disgresiwn y Bwrdd Iechyd lleol. Mae'r geiriad ar dudalen 93 ynghylch gweithrediadau'r PAA yn fy arwain i gredu mai'r geiriad olaf sy'n gywir.

**Paragraff 9.10, pwynt bwled x (tudalen 99)**:  Mae'r pwynt bwled hwn yn awgrymu, mewn achosion adolygiadau ôl-weithredol, bydd ail adolygiad cymheirio lle gwneir yr argymhelliad o ddim cymhwysedd. Mae hyn yn groes i'r geiriad mewn man arall yn y ddogfen, sy'n awgrymu y dylid dileu'r gofyniad am ail adolygiad gan gymheiriaid. Fel y nodais uchod, yr wyf yn cefnogi'r syniad o ddileu'r gofyniad hwn.

**Paragraffau 9.16 - 9.20 (tudalen 101)**: Mae'r paragraffau hyn yn amlinellu'r cyfrifoldeb dros brosesu hawliadau ôl-weithredol gan Brosiect Adolygiadau Ôl-weithredol GIP Cymru Gyfan. O ystyried fod y prosiect bellach wedi dod i ben, byddwn yn awgrymu dileu'r cymalau hyn yn y Fframwaith terfynol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

**DST, paragraff 31 (tudalen 10):** Mae'n ymddangos i mi fod geiriad y paragraff hwn yn groesddywedol. Er ei fod yn cyfeirio ar y cychwyn i gyflyrau iechyd "corfforol", mae'n defnyddio'r enghraifft o "ymddygiad". Gall enghraifft wahanol helpu i egluro ystyr yr adran hon.

Hyderaf y byddwch yn gweld fy sylwadau yn ddefnyddiol. Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum croeso i chi gysylltu â Greg Phillips, Rheolwr Ymchwilio Cynorthwyol  sy'n arbennigo ar faes GIP (Gregory.Phillips@ombwdsmon.cymru) neu Ania Rolewska, Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombwdsmon.cymru).



**Nick Bennett**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Awst 2019**

***********************************************************************************